
# Llên natur

**Bwletin 145**
**Mawrth 2020**

*I'r hen a'r ifanc*

Cylchgrawn amgylcheddol Cymraeg i'r teulu cyfan ac athrawon

Mae pob un eicon ac eitem mewn piws yn ddolen i fwy o wybodaeth



Llun: Bethan Vaughan Davies

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

(Rhif Elusen: 1126027)




**Englyn bedd gan y bardd John Llewelyn Roberts: Boddwyd Evan Wyn Williams yn 20 oed oddiar Borthygest, 22 Mehefin 1960**

Roedd yr 22 Mehefin 1960 yn ddiwrnod poeth iawn. Mae'n debyg bod Evan yn ymdrochi yn y môr pan foddwyd ef. Mae ardal y Graig Goch yn arbennig o berygl meddai Dewi Lewis. Mae sawl trychineb wedi digwydd yn yr ardal hon.

- **Stori Glynda Margaret Jones** - Mae'r ardal yma o draethau Borth y Gest yn eithriadol o beryglus oherwydd cerynt cryfion yn enwedig ar drai. Ardal y Garreg Goch (Craig Goch ar y beddfaen). Fe'm rhybuddiwyd yn blant i beidio â mynd yn agos i'r ardal heb oedolion gyda ni. Yma wrth gwrs ceir y graig a enwir yn lleol yn "Danger Rock" a hynny oherwydd y cerynt cryf sy'n chwipio o'i chwmpas. Dros y blynyddoedd mae sawl un wedi ei colli yma. Tywydd braf a'r awydd i ymdrochi yn y môr heb lawn ystyried y peryglon siwr o fod sy'n gyfrifol am y fath drychinebau. Cof trist iawn fy mhlentyndod oedd diflaniad Glynda Margaret Jones merch o'r Port. Canfuwyd hi'n ddiweddarach wedi boddi. **DL**
- **Dr James Lincoln, mis Awst 2019** - Wythnos yn ôl cafwyd cwest i farwolaeth Dr James Lincoln a foddwyd yno ym mis Awst 2019.
- **Mr Percy Hughes Jones** - Mae bedd ym mynwent Moel y Gest sy'n cofnodi digwyddiad arall VISITOR DROWNED AT BORTH Y GEST : *"A young man named as Mr Percy Hughes Jones of West Norwood was drowned on Sunday morning at Garreg Goch,Borth y Gest, Portmadoc in the presence of his sister and his fiancee... /…Miss Evelyn Jones said her brother and a lady friend went about 10 o'clock on Sunday morning to bathe at Garreg Goch. She and the lady friend after being in the water for a while came ashore and left the deceased in the water. She told him not to remain long and that it was not a very safe place. He was not a good swimmer. Presently she heard her brother shout and could see that he was in distress. She could do nothing to help him but she called to a man to come and help and he did so. He threw out a life belt but not far enough. Then another man came and went into the water. By this time her brother had disappeared.*
- **Cynhebrwng Mr Percy Hughes Jones, 15 Awst 1919** - *Military Funeral: Mr Percy Hughes Jones the ex-soldier who was drowned at Garreg Goch on Sunday was buried with military honours. A squad of the Commrades of the Great War under the command of Captain John Humphreys and the town brass band under the leadership of Mr John Harlech Williams assembled at Borth y Gest at 2.30pm. The body was placed on a gun carriage and the coffin was covered with the Union Jack. All private houses and shops on the line of the procession to the cemetery had their blinds drawn. Only relatives and immediate friends were in the carriages. The Revs J Jervis and R Howells (curates) officiated. The band played "The Death March" and hundreds of people lined the streets as the cortege passed. The greatest sympathy was shown by the inhabitants towards the parents and relatives of the deceased in their great and sudden bereavement.*

***North Wales Chronicle and Advertiser (15 August 1919)***

- **Carreg fedd Percy Hughes Jones , 10 awst 1919** - Ar y garreg fedd ym Mynwent Moel y Gest, Porthmadog ceir *"In loving memory of/PERCY HUGHES JONES/Queen's Westminster Rifles of Norwood, London/Born Hobart,Tasmania,May 15 1896/Accidentally drownred at Borth y Gest Aug 10th 1919/To the grief of all who knew him"*. Mae na berthnasau iddo yn dal i fyw yn Awstralia-mi gysylltais efo nhw i roi gwybod iddynt am y digwyddiad a'r garreg. **Dewi Lewis**

A barnu wrth y cofnodion o gwmpas dyddiad boddi Percy yn 23 mlwydd oed yn agos i'r lle fu farw Evan hanner canrif yn ddiweddarach, roedd hi'n gyfnod braf o haf unwaith eto. Llecyn peryglus yw hwn fel mae Dewi yn ei ddweud. A oedd Percy wedi llwyddo i ddod trwy gyflafan y Rhyfel Byd Cyntaf ond i foddi'n ddiniwed yn fan hyn (neu a oedd efallai yn ymwrthodwr cydwybodol?) - mae'n rhaid bod mwy o ôl-stori yn fan hyn yn rhywle?... **Llên Natur**

- **Stori'r llew, 1 Gorffennaf 1887** - Ychwanegwch hwn at y 'plot' hefyd ! *A TAMER ATTACKED BY A LION - Those who attended a performance at a menagerie at Portmadoc on Friday night witnessed an unrehearsed act of an exciting character. A lion tamer named Captain Marco had entered the cage to wrestle with the beast, and whilst going through the performance the lion savagely attacked the tamer from behind. The animal opened his jaws over the back part of the man's head and was in the act of biting him when Marco dealt the lion a crushing blow. There was a great deal of blood flowing from Marco's head, but he was not otherwise seriously injured.* **Dewi Lewis**

**Cafodd Capten Marco fedal am ei wroldeb**




Ar FB

**Cysylltwch â Llên Natur : llennatur@yahoo.co.uk**

**Cofiwch : CYMUNED LLÊN NATUR (grŵp Llên Natur) ar Facebook**

## Chwysigen fôr ar draeth Ynys Enlli



***Portuguese man 'o war*** [Chwysigen môr] wedi golchi fyny ar Ynys Enlli. **Mari Huws**

Doedd dim son am hwyl fôr (*Velella*) na chwysigen fôr (*Physalia*) ar draeth Pontllyfni bore yma 2 Chwefror. **Gill Brown**

**Gwybodaeth** **Ar FB**

## Twm Dew

**Newydd bod yn gwylio rhifyn gwirioneddol gwych o Winterwatch (diolch i Iolo a'r criw gwybodus). Os fethoch chi'r rhaglen, gwyliwch hi eto am yr eitem am loynnod y trilliw bach yn gaeafu yn eich sied (neu flwch nythu efallai). Darganfyddodd y cyfaill bod y trilliw ("Twm Dew") yn mynd i'r aeafan, erbyn hyn, mor fuan ag Awst.**

Dyma gofnod Wil Williams o griw o löynnod trilliw wedi sodro eu hunain mewn blwch nythu ar Ynys Môn ym Awst 2014. **Llên Natur**

Gyda llaw pwy sy'n cyfarwydd â'r enw Twm Dew am y glöyn bach yma sy'n gyfarwydd i rhai pobl yn Arfon a thu hwnt?



Y tu fewn



Y tu allan

**Am fwy o wybodaeth, cofiwch glicio ar y geiriau a'r eiconau piws.**

## Ffosil cwrel



Y garreg yma ar draeth Llanddulas heddiw, ffosil cwrel dwi'n credu - 3 Chwefror 2020. **Alun Williams**

Rhain yn y garreg galch yn y Burren, Iwerddon 1. **Iolo Ap Gwynn**

Mae'n bosib bod cwrel Alun, sy'n perthyn i galchfaen Carbonifferaidd, wedi dod o galchfaen lleol Llanddulas. Dyma 2 garreg a gasglon ni o draeth Pontllyfni nad oedd yn bosib iddi ddod o unrhyw graig leol. Y calchfaen agosaf i hon mae'n debyg yw Penmon, Môn. Sgwn i faint o bowlio gafodd hi 'nôl a blaen, o dan y môr, ac am ba hyd, cyn cyrraedd Pontllyfni? Mae'r daith o Bontllyfni I' cartref yn Waunfawr yn dipyn mwy eglur! **Llên Natur**

I'w cael ar draeth Nant Gwrtheyrn hefyd. Math o Crinoid. Wedi ei phowlio yma gan y rhewlif 'stalwm ac yn rhan o'r gwaddodion welwn yn y clogwyn pridd cyn ei gollwng i'r traeth gan erydiad. **Twm Elias**



Rhain yn y garreg galch yn y Burren, Iwerddon.
Iolo Ap Gwynn
3 Chwefror 2020



Carreg a gasglon ni o draeth Pontllyfni.

## Llofft stabal - Penmynydd Sir Fôn...




...ynteu llofft y gweision, dyna fyddai hwn am nad ydy o dros stabal.

Gwres canolog i'r llofft dros y gaeaf. Ddim cystal dros feudy neu gwt lloeau, ond dros huwal neu gwt peiriannau fel yn y llun mi fyddai'r hogia yn rhewi! **Twm Elias**

Mae hwn yn **debyg iawn** i stablau Llydaw. **Dominig Kervegant**

# Yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth

## Dyfodiad y gwanwyn yn Waunfawr




**(data Huw Jones)**

Y gwerthoedd 'x' yw'r dyddiau 1-31 Ion., a'r gwerthoedd 'y' yw'r TSum crynhoadol. Mae hwn yn mynd i ddiwedd Ionawr. Bu'r gwanwyn eleni, hyd yn hyn, yn agos iawn at y cyfartaledd dros y cyfnod cyfan, ’94-’20. **Llên Natur**

## Y Gwanwyn acw

**Dwi ddim yn cofio gwneud hyn mor gynnar yn y flwyddyn.** Torri gwair yn wythnos cynta’ Chwefror. Torïad ola yn wythnos cynta’ Tachwedd ! Rhiwbob yn tyfu’n gyflym yma. 8 Chwefror ’20 , Dyffryn Clwyd **Gwyn Parry**



Riwbob ’fyny yn Llanbêr hefyd. Gwylia am y greenfly, mae rheini o gwmpas hefyd. Digon ar fy rhosyn i yma. **Paula Roberts**

Mae gen i riwbob o dri math ond dim ond un sy’n dangos hyd yma. **Llên Natur**

*We are our first lot of rhubarb last weekend Delicious!* 8 Chwefror ’20 Waunfawr **Chris Simpkins**

Tarten riwbob yma yfory hefyd os na fydd y corwynt 'ma wedi ei lorio a'i falu. **Minah Drew**

## Yma ac acw: eich cyfraniad

Roedd Rhifyn 1 Llên Natur (Ionawr 2008) yn trafod cofnod o dywydd eithafol ar 17 Rhagfyr 2001: pwysedd awyr uchaf erioed yn y cyfnod cofnodi yng Nghymru. Rydym ni’n parhau i wneud hynny ond mae’ch cyfraniadau, tystiolaeth am yr hyn rydych chi’n ei weld, **yma**, mwy pwysig nac erioed, heb anwybyddu’r hyn sy’n digwydd ym mhen arall y byd, **acw**.

Doedd ’na ddim tudalennau arbennig ar gyfer **yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth** yn 2008. Erbyn hyn mae pethau wedi newid go iawn. Mae gwerth mawr felly i’ch cofnodion **chi**.

## Y wenynen gyntaf acw



**Ein gwenynen gyntaf eleni - Betws-y-Coed, 6 Chwefror** **Gwawr Mowatt**

Ardderchog! Gwenynen fêl - beth am wirio eich blodau eirlys i weld a oes paill ynddynt? Mae’r wenynen hon yn cario paill cochaidd iawn - a fuodd hi’n fforio ar flodau eraill ynteu ydi paill eirlys yn gochaidd fel’na? **Llên Natur**



...dim paill arall yn amlwg! **Gwawr Mowatt**

Go dda - ydi’r gwenyn wedi cael y paill o rhyw blanhigyn arall? Pa flodau eraill sydd yn peillio rwan yn eich ardal tybed? **Llên Natur**

## Testun pryder



**Bu stormydd Ciara a Dennis, ddechrau Chwefror, yma yng Ngymru yn destun pryder i ni i gyd.** Serch hynny mae Llên Natur yn derbyn yr un newyddion â phawb arall, megis stori **tannau Awstralia**. Mae’r math hwn o ddigwyddiad yn gorfodi rhywun i roi pethau mewn perspectif gwahanol oherwydd maint y digwyddiad neu’r canlyniad posib mae’r byd gwyddonol yn ei rhagweld. Enghraifft o hyn yw’r tymheredd uchaf erioed a recordwyd yn **Antarctica**.

Trafodwyd **codiad lefel y môr** mewn eitem arall yn Rhifyn 144 y bwletin hwn ac mae animeiddiad a dderbynwyd yng Nghymuned Llên Natur y mis yma yn dangos senario posibl ar gyfer gogledd Cymru a chyffiniau Caer - digon i bryderu amdano mae’n amlwg. Tri dot ydyn nhw’r mis yma (ar fap y byd).

## Cymru (2020) v Llydaw (2019)




Cynffon oen bach - Llanberis, 3 Chwefror '20
**Chris Rose-Thomas**



Cynffon oen bach yn eu gogoniant - Plousken (Plwyf Persken, Mor Bihan), 25 Chwefror '19 **D. Kervegant**

Ydi ’cynffonau’ Llydaw yn fwy lluosog ac yn gynt na rhai ni yn gyffredinol?

## Geiriau prin yn y Gymraeg




**Mae dolenni ar y dudalen flaenorol yn eich arwain at erthygl wedi ei ddyddio o 7 Chwefror 2020 ond peidiwch â meddwl ein bod ni'n aildrodd yn fan hyn!** Mae gan yr Ariannin orsaf dywydd weithredol ers 1961 yn Antarctica. Cyn y mis yma roedd record o 17.5C yn bodoli ers Mawrth 2015. Cafodd record y 7ed o Chwefror eleni (18.3C) ei guro'n sydyn iawn ar y 9ed o Chwefror sef 20.75C (!) yng nghorsaf Marambio - perthyn i'r Ariannin. Yn aml, prin iawn yw'r geiriau am yr yn sy'n digwydd. Mae'r sefyllfa mor ddrwg rydym yn bodloni ar ebychiad neu emoji I fynegi ein dychryn.

Dim geiriau... **Llên Natur**

Dim syndod chwaith. **Paula Roberts**



Mae sylwadau y papurau swmpus Prydeinig yn fwy helaeth ond ydyn nhw o werth? **[ Defnyddwyd graff y Guardian a llun Wicicommons ar gyfer y pwt hwn ]**

## Loteri'r traean...



**Mae'r lluniau hyn wedi eu postio gan aelodau grŵp Cymuned Llên Natur. Maent yn dangos samplen o'n cyfoeth naturiol heddiw.** Mae erthygl yn yr Independant am astudiaeth gan Brifysgol Arizona yn dangos buasai traean o anifeiliaid a phlanhigion yn gallu diflannu ymhen 30 blynedd, oherwydd newid hinsawdd - wedi ei greu gan Ddyn. Mae'r astudiaeth yn dangos pa mor anodd yw i rywogaethau addasu i'r newidiadau hyn, yn enwedig os ydi dyddiau poethaf yr haf yn eithriadol o gynnes. Mae'r problemau mae anifeiliaid a phlanhigion yn eu wynebu yn y trofanau yn arbennig o amlwg - ond, mae ein hanifeiliaid ni yr un mor fregus yn y loteri hwn.

Mae'r erthygl yn cynnwys llun o anfeiliaid mawr Affrica, a dyma beth yw'r ffordd mwya amlwg i dynnu ein sylw at y pwnc. Dydi "pethau" bychain fel llyffantod, gwenyn ac adar bach Cymru ddim yn gallu cystadlu am ein sylw.

Mae'r astudiaeth yn dangos pa mor bwysig yw glynu at gytundeb Paris i osgoi Armagedon Rhywogaethau.

Cofnodwch y digwyddiadau hanesyddol hyn yn Llên Natur.

## Ciara a Dennis: Cylchwyntoedd bomb




**Tybed ai hwn yw'r tro cyntaf i chi glywed y gair cylchwynt bomb - efallai bod y gair seiclon bomb yn well gan rai.** Serch hynny, mae'n ddigon posibl ein bod ni'n mynd i'w glywed yn amlach yn y dyfodol. Nid yw lluniau Gareth Pritchard a Dafydd Morris mor ddramatig â llun Richard Outram o Ddinas Dinlle ond o ganlyniad i **storm Dennis** mae lleoedd nad oedd wedi eu boddi cymaint ond mae llifogydd newydd mewn lleoliadau cyfarwydd yr un mor arwyddocaol. Dyma dystiolaeth Gareth a Dafydd:

Mi wn nad yw hwn yn ddim o'i gymharu â'r llifogydd mae nifer wedi eu dioddef yn ystod Storm Dennis. Er hynny, tybiaf ei bod yn werth nodi mai dyma'r llifogydd gwaethaf a gofiaf ar Gaeau Bodafon ger Ffordd Nant y Gamar. Mae'r pwll yma yn sicr yr un mwyaf a welais ar y safle - Chwefror 16, 2020.

**Gareth Pritchard**

A dyma ni: pen uchaf Cei Connah CH5 4PR. Mynd am dro byr, gwyntog, brynhawn heddiw a gweld y llwybr troed hwn, sy'n cysylltu Llwyni Drive a Thalgarreg Drive, o dan ddŵr, a hynny am y tro cyntaf yn y 31 o flynyddoedd 'dyn ni yma. Wedi gorlifo o'r ffos, a rhai o'm lluniau'n dangos ysbwriel a daflwyd yno; ond nid yw'r esboniad yna'n dad-wneud dim ar y ffaith. **Dafydd Morris**

## Streips Gareth



Ydi, mae'r Gwanwyn yn nesu! Roedd hi'n ddigon braf yn Llandudno ar y 1af o Chwefror, 2020, i dorri'r lawnt. Er, nid mor gynnar â'r llynedd! Bryd hynny, roedd y toriad cyntaf ar y 15fed o Ionawr. Rhyfeddod oedd bod cymaint o wair eleni - pum sach i'w ail-gylchu. **Gareth Pritchard**

Rhywun arall wedi torri eu lawnt eto? **Llên Natur**

Hoffi'r streips Gareth! **Margaret Roberts**

Oes, mae na dyfiant da oherwydd fod y ddaear bob amser mor wlyb. **Eirlys Williams**

## Patrymau Iwan ac Edward

**Dyma lluniau o batrymau mewn coed o draeth Cricieth** **(Iwan Williams)**

Ffawydd? **Edward Keith**

Arbennig! Os os ydych yn troi coed gyda thurn *(lathe)*, mae rhain fyn rhoi patrymau hyfryd mewn powleni pren ac ati. **Llên Natur**


Llosgi'n dda hefyd **Iwan Williams**








## Gorsaf dywydd Robin




**Dyma gyfle arbennig i gyflwyno yn y bwletin hwn system fonitro tywydd Atomwide.** Mae data 'amser go iawn' Ysgol Gynradd Llanrug (chwiliwch Caernarfon, *Wales*) yma. Robin Williams sy'n gyfrifol am sefydlu a chynnal y system yn lleol. Mi ddaeth y cyfle wrth drafod stormydd mawr Chwefror 2020: Ciara a Dennis. Mae'n hawdd iawn defnyddio'r system, a chael gafael arno yn enwedig. Diolch i wefan hwylus dros ben: https://weather.atomwide.com/. Rydym ni, gyda'r tri graff ar y chwith, yn cynnig crynodeb o'r 3 diwnod pan fu Dennis wrthi'n gwneud ei waethaf yma yng Nghymru. Ychwanegwyd llinellau toredig er mwyn caniatau cymhariaeth rhwng y gwahanol paramedrau. Mae'n amlwg bod Robin Williams yn gwneud yr un peth yn rheolaidd, er enghraifft ar adeg storm Barbara. **Triwch y sustem!** Mae'n hawdd iawn.

Dwedodd Robin: "dadansoddiad DATA Gorsaf Dywydd Ysgol Gynradd Llanrug - Dyma ddata mis Ionawr 2018, Crynodeb : Mis gwlyb a stormys !! Wrth osod y graffiau ochr yn ochr mae'n ddiddorol gweld y berthynas - amodau gwasgedd, tymheredd glawiad a chyferiaid y gwynt sy'n cofnodi ffryntiau tymhestlog gwlyb." **Robin Williams**

# Storm Ciara, 9 Chwefror 2020


**Gorlifo afonydd,  llanw mawr yn goresgyn, tirllithiad yng Nghrafant, dŵr yn rhedeg i fyny yn Nantperis, hen Bont y Mwynwyr  wedi ei chwalu, Llanrwst a Llanelwy dan ddŵr... Dychryn a syndod ar bob llaw.**



Rhun Edwards • Crafnant



Anthony Thomas • Aberffraw



Karen Pugh • Betws-y-Coed



Lindsey Colbourne • Nantperis




Alun Williams • Llanelwy



Aaron Wynne • Llanrwst

# Gwefan Llên Natur: Y Bywiadur



Gartref | Y Tywyddiadur | Y Bywiadur | Y Bwletinau | Yr Oriel | Pytiau Fideo | Llyfrgell | Llais

# Y Bywiadur


Trysorfa o wybodaeth am y gwahanol fathau o anifeiliaid a phlanhigion yw'r Bywiadur. Mae'n "eiriadur rhywogaethau" yn gyntaf.


## Adnabod ystlumod






















## Un enghraifft

natterer [Chwilio]

Wedi canfod 1 canlyniad.

Dyma ganlyniadau Cymraeg sy'n berthnasol i:

**natterer** (1)


cofnodion sy'n cynnwys 'natterer'

ystlum Natterer eg ystlumod Natterer *Myotis nattereri* Natterer's bat

Chwilio am 'natterer'

Cewch holi'r Bywiadur am enw Cymraeg, Saesneg neu Ladin am unrhyw anifail neu blanhigyn o'r grwpiau mwyaf adnabyddus yng ngwledydd Prydain, ac yn achos yr adar, ar draws y byd.

## Yn Y Naturiaethwr




Y Wefan

Yr Astudiaeth

Erthygl a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Edward Llwyd yn Y Naturiaethwr, Rhifyn 21 - Ionawr '89.

DB